Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyllid ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig mewn addysg uwch 2025-26
## - canllaw i etholwyr

Awst 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyllid ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig mewn addysg uwch 2025-26

- canllaw i etholwyr

Awst 2025

**Awdur:**
Dr. Thomas Morris

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig ..... 2**

Meini prawf cymhwysedd ..... 2

Cenedligrwydd a phreswyliaeth ..... 2

Oedran ..... 2

Eich cwrs ..... 3

Eich darparwr ..... 3

Astudiaethau blaenorol ..... 3

**3. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig ..... 4**

Meini prawf cymhwysedd ..... 4

Cenedligrwydd a phreswyliaeth ..... 4

Eich oedran ..... 4

Eich cwrs ..... 5

Eich darparwr ..... 5

Astudiaethau blaenorol ..... 5

**4. Cyllid ar gyfer cyrsiau eraill ..... 6**

Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig ..... 6

Cymhelliant hyfforddi athrawon ..... 6

Cyllid gradd gofal cymdeithasol ..... 6

**5. Ffynonellau eraill o gymorth a chyllid...................................... 7**

Lwfansau i fyfyrwyr anabl .......................................................................... 7

Cynghorau ymchwil ...................................................................................... 7

Y gyfraith........................................................................................................ 7

Dawns, drama a cherdd ................................................................................ 8

Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ............................................................... 8

**6. Rhagor o wybodaeth ............................................................. 9**

**7. Lincs i ragor o wybodaeth am gymorth ariannol .................13**

Lincs i gymorth ariannol i ôl-raddedigion ym mhrifysgolion Cymru ...13

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth wedi'i diweddaru am y gwahanol fathau o gymorth ariannol sydd ar gael i helpu dysgwyr ôl-raddedig i astudio cwrs addysg uwch.

Yn wahanol i gymorth ariannol israddedig, pan fo'r cymorth yn cael ei rannu rhwng help gyda'ch ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw, fel myfyriwr cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth byddwch yn cael un swm o arian a chi sy'n dewis sut i'w ddefnyddio.

Gall y rheolau ynghylch cymorth ariannol fod yn gymhleth iawn, ac mae llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod 'fel arfer' yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw mai canllaw cyffredinol yw hwn i fod, ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad neu hawl.

Mae cymorth ariannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser.

*Ymwadiad: Mae pobl yn holi Ymchwil y Senedd yn rheolaidd ynghylch cyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

# 2. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig

Os ydych yn dechrau cwrs Meistr ôl-raddedig, naill ai wedi'i addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil, gallwch wneud cais am fenthyciad i helpu gyda chostau'r cwrs. Yn **2025-26**, mae hyn hyd at £19,255.

Os yw eich cwrs yn para mwy na blwyddyn, bydd yr arian hwn yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws pob blwyddyn o'ch cwrs. Mae'n rhaid ichi ad-dalu unrhyw fenthyciad rydych yn ei gael. Mae rhagor o wybodaeth am ad-dalu eich benthyciad ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Meini prawf cymhwysedd

Gall y **rheolau ynghylch cymhwysedd** fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. Dylech geisio cyngor arbenigol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd

At ei gilydd, mae cymhwysedd yn dibynnu ar yr holl feini prawf a ganlyn::

- Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth;
- eich cwrs;
- eich prifysgol neu eich coleg;
- eich oedran
- eich astudiaethau blaenorol.

### Cenedligrwydd a phreswyliaeth

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth ariannol, mae'n rhaid ichi fodloni'r amodau canlynol:

- Rydych chi'n ddinesydd y DU, yn ddinesydd Iwerddon neu'n rhywun â statws preswylydd cyn-sefydlog neu breswylydd sefydlog;
- rydych chi'n byw yng Nghymru fel arfer; a hefyd;
- rydych chi wedi bod yn byw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am dair blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Cwrs

Mae'n rhaid i'ch cwrs fodloni'r amodau canlynol:

- Cwrs Meistr annibynnol llawn, nid cwrs atodol;
- cwrs sy'n werth o leiaf 180 credyd; a hefyd;
- cwrs sy'n para rhwng 1 a 4 blwyddyn.

Gall eich cwrs fod yn:

- Amser llawn neu'n rhan-amser; a hefyd
- wedi'i addysgu, neu wedi'i seilio ar ymchwil.

Mae gwefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn darparu rhagor o wybodaeth am gyllid hyfforddi athrawon, dysgu o bell, cyrsiau integredig a chyrsiau pensaernïaeth..

## Eich prifysgol neu eich coleg

Rhaid i'ch prifysgol neu goleg fod wedi'i gymeradwyo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod yn y DU.

Ar gyfer y rheini sy'n astudio mewn sefydliad preifat, rhaid ichi ddilyn **cwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru**. Os ydych yn ansicr, gallwch wirio gyda'ch prifysgol neu'ch darparwr.

## Oedran

I fod yn gymwys i gael cymorth ariannol, rhaid ichi fod **o dan 60 oed** ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs.

## Astudiaethau blaenorol

Byddwch chi **ddim yn gymwys** i gael cymorth ariannol ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru os yw'r canlynol yn wir:

- Rydych chi eisoes wedi cael cyllid gradd Meistr ôl-raddedig neu fenthyciad gradd Meistr ôl-raddedig;
- mae eisoes gyda chi radd Meistr, neu gymhwyster sy'n gyfwerth, megis gradd Meistr integredig; neu
- mae eisoes gyda chi gymhwyster sy'n uwch na gradd Meistr.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu cael cyllid os na lwyddoch i gwblhau eich cwrs blaenorol, am reswm personol cymhellol. Gellir adolygu amgylchiadau fesul achos, a bydd angen tystiolaeth.

## Rhagor o wybodaeth

Byddwch chi ddim yn gymwys i gael cymorth ariannol ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru os ydych chi'n cael cyllid gan y canlynol:

- Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol;
- unrhyw gynlluniau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon; neu
- bwrsariaeth y GIG.

# 3. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig

Gall myfyrwyr doethuriaeth sy'n dechrau cwrs rhan-amser neu amser llawn wneud cais am fenthyciad **Cwrs Doethurol Ôl-raddedig** o hyd at £29,130 dros gyfnod y rhaglen.

Gwneir taliadau mewn cyfranddaliadau ar draws nifer blynyddoedd y rhaglen Ddoethurol. Nid yw'r benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd.

Mae'n rhaid ichi ad-dalu unrhyw fenthyciad a gewch, gan gynnwys llog, ar ôl ichi orffen neu adael eich cwrs. Mae rhagor o wybodaeth am ad-dalu ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Meini prawf cymhwysedd

Yn fras, mae cymhwysedd yn debyg i gyllid gradd Meistr Ôl-raddedig, ac mae'n dibynnu ar y canlynol:

- Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth;
- eich cwrs;
- eich prifysgol neu eich coleg;
- eich oedran;
- eich astudiaethau blaenorol.

### Cenedligrwydd a phreswyliaeth

Yn gyffredinol, er mwyn gwneud cais am gymorth, mae'n rhaid ichi fodloni'r amodau canlynol:

- Rydych chi'n ddinesydd y DU neu Iwerddon, neu'n rhywun â statws preswylydd cyn-sefydlog neu breswylydd sefydlog, neu'n meddu ar ganiatâd amhenodol;
- rydych chi'n byw yng Nghymru fel arfer; a hefyd
- rydych chi wedi bod yn byw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am dair blynedd cyn dechrau'r cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Eich cwrs

Mae'n rhaid i'ch cwrs fodloni'r amodau canlynol:

- Bod yn gwrs Doethurol ôl-raddedig annibynnol (nid cwrs atodol);
- bod wedi dechrau ar 1 Awst 2018 neu wedi hynny; a hefyd

yn para rhwng 3 a 8 blwyddyn.

- Gall eich cwrs fod yn:
- Amser llawn neu'n rhan-amser; a hefyd
- wedi'i addysgu, neu wedi'i seilio ar ymchwil.

Mae **gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn darparu rhagor o wybodaeth am ddysgu o bell a chyrsiau integredig.

## Eich prifysgol neu eich coleg

Rhaid i'ch prifysgol neu goleg fod wedi'i gymeradwyo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod yn y DU.

Os oes mwy nag un brifysgol yn gyfrifol am gyflwyno eich cwrs, ac mae un ohonynt dramor, fe fyddwch chi'n gymwys i gael y Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig dim ond os yw'r brifysgol yn y DU yn brif brifysgol, a bod o leiaf 50% o'r addysgu a'r goruchwylio yn cael ei ddarparu yn y DU.

## Eich oedran

I fod yn gymwys i gael cymorth ariannol, rhaid ichi fod **o dan 60 oed** ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs.

## Eich astudiaethau blaenorol

Byddwch chi **ddim yn gymwys** i gael cymorth ariannol ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru os yw'r canlynol yn wir:

- Rydych chi eisoes wedi cael Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig; neu
- mae gennych radd Doethurol eisoes, neu gymhwyster cyfwerth neu uwch.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu cael cyllid os na lwyddoch i gwblhau eich cwrs blaenorol, am reswm personol cymhellol. Gellir adolygu amgylchiadau fesul achos, a bydd angen tystiolaeth.

## Rhagor o wybodaeth

Byddwch chi ddim yn gymwys i gael y Benthyciad Doethurol Ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru os yw'r canlynol yn wir:

- Rydych chi'n cael cyllid o fwrsariaeth gwaith cymdeithasol neu unrhyw gynllun cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- rydych chi'n cael cyllid o fwrsariaeth y GIG;
- rydych chi'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn cael Bwrsariaeth Seicoleg Addysgol; neu
- rydych chi'n cael lwfans, bwrsariaeth neu ddyfarniad a wnaed gan Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (neu UKRI) tuag at eich cwrs Doethurol ôl-raddedig.

# 4. Cyllid ar gyfer cyrsiau eraill

## Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig

Os oes gennych radd israddedig eisoes ac rydych yn dymuno gwneud cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig, dylech wneud cais am yr un cyllid â myfyriwr israddedig. Mae hyn yn golygu y gallech fod yn gymwys i wneud cais am gymorth ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw. Mae gan Ymchwil y Senedd **ganllaw ar wahân ar gyllid myfyrwyr israddedig ar gyfer 2025-26** sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth.

### Cymhelliant hyfforddi athrawon

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun **cymhelliant ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon** ar ben y cymorth ariannol tebyg i'r cymorth i fyfyrwyr israddedig a grybwyllwyd uchod.

Mae gan Lywodraeth Cymru **dri chynllun cymhelliant** i fyfyrwyr:

- **Pynciau blaenoriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon**: Mae grantiau ar gael i fyfyrwyr cymwys sydd â gradd benodol;
- **Cymhellion Iaith Athrawon Yfory**: Mae grantiau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio am gymhwyster sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu Cymraeg fel pwnc; a hefyd
- **Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol**: Mae grantiau ar gael i fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n astudio tuag at dystysgrif addysg achrededig i raddedigion (TAR) gyda Statws Athro Cymwysedig.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni hyfforddi sy'n eu galluogi i addysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gysylltu â'u darparwr neu anfon e-bost at **workforce@medr.cymru**.

## Cyllid gradd gofal cymdeithasol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweinyddu bwrsariaethau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n dilyn gradd Meistr gwaith cymdeithasol gymeradwy yng Nghymru.

I gael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn esbonio fod yn rhaid bodloni'r amodau canlynol:

- rhaid eich bod yn byw yng Nghymru;
- rhaid i chi beidio â chael cymorth ariannol arall gan gyflogwr i hyfforddi;
- rhaid i chi astudio **cwrs gradd Meistr cymeradwy yng Nghymru**.

Mae rhagor o wybodaeth am faint o gyllid sydd ar gael a sut i wneud cais ar **wefan Gofal Cymdeithasol Cymru**.

# 5. Ffynonellau eraill o gymorth a chyllid

## Lwfansau i fyfyrwyr anabl

Gellir defnyddio Lwfans Myfyrwyr Anabl i dalu rhai o'r costau ychwanegol sydd gennych oherwydd cyflwr iechyd meddwl, salwch hirdymor neu unrhyw anabledd arall. Gellir defnyddio'r cyllid hwn i dalu am gostau sy'n gysylltiedig ag astudio megis offer, cymorth anfeddygol, teithio, a llungopïo ac argraffu.

Mae faint o gyllid y gallwch ei gael yn dibynnu ar eich anghenion unigol, nid incwm eich aelwyd.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26, gall myfyrwyr israddedig amser llawn neu ran-amser gael hyd at £34,000 y flwyddyn ar gyfer cymorth.

Gallwch wneud cais os oes gennych anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n effeithio ar eich gallu i astudio. Rhaid ichi, hefyd, fodloni'r gofynion cymhwysedd safonol ar gyfer cyllid myfyrwyr i wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. Gallwch wirio gyda chynghorwyr cyllid myfyrwyr eich prifysgol neu goleg i drafod a yw eich cwrs yn gymwys ar gyfer Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **canllaw ar Lwfans Myfyrwyr Anabl**.

Mae rhagor o wybodaeth, hefyd, ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Cynghorau ymchwil

Corff yw **Ymchwil ac Arloesedd y DU** (UKRI) sy'n dwyn ynghyd y saith Cyngor Ymchwil yn y DU ynghyd ag Innovate UK a Research England.

Mae gan bob Cyngor Ymchwil ei bortffolio ei hun sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys y gwyddorau meddygol a biolegol, ffiseg, cemeg a pheirianneg, gwyddorau cymdeithasol, economeg, gwyddorau amgylcheddol a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Mae pob un o'r Cynghorau Ymchwil yn ystyried cyllido ôl-raddedigion unigol, ond mae'r broses o sicrhau cyllid gan unrhyw gyngor ymchwil yn gystadleuol, ac nid yw'r ffaith bod myfyriwr wedi cael lle ar raglen ôl-radd yn golygu, o anghenraid, y dyfernir cyllid iddo. Mae gwybodaeth fanylach am gyllid ar gael ar **wefan UKRI**.

## Y gyfraith

Mae **Cymdeithas y Cyfreithwyr** yn cynrychioli cyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu cymorth mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys lobïo a thrafod â rheoleiddwyr, y llywodraeth ac eraill, ac yn cynnig hyfforddiant a chyngor.

Mae'n gweinyddu **Cynllun Mynediad Amrywiaeth**, sef, yn ôl y gymdeithas, rhaglen ysgoloriaeth wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i broffesiwn y cyfreithwyr, y mae'r rhai o gefndiroedd llai breintiedig yn eu hwynebu. Gall ddarparu ysgoloriaethau i ariannu'r Cwrs Ymarfer y Gyfraith, lleoliadau gwaith a chymorth mentora..

## Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDA (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn rhai sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Mae cynllun DaDA ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 23 oed, sy'n dangos talent a thebygolrwydd o lwyddo yn y diwydiant. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar **wefan Llywodraeth y DU**.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau** hyd at £1,000 ar gyfer dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Er mwyn bod yn gymwys i gael bwrsariaeth rhaid i chi fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys bod yn ddinesydd y DU a gallu dangos dawn ac ymroddiad i wella'ch sgiliau. Mae rhagor o wybodaeth am **gymhwysedd a sut i wneud cais ar ei gwefan**.

## Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig **Ysgoloriaethau Ymchwil** i tua 10 o fyfyrwyr PhD sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau, y gofynion cymhwysedd a sut i wneud cais ar gael ar ei wefan.

## Teithio rhatach

Os ydych chi'n 16-21 oed ac yn byw yng Nghymru gallwch wneud cais am **Fy Ngherdyn Teithio**. Gall Fy Ngherdyn Teithio helpu'r rheini sydd rhwng 16 a 21 oed i gael 30% oddi ar docynnau bws wythnosol, misol neu flynyddol.

O 1 Medi 2025, bydd **prosiect peilot** yng Nghymru yn caniatáu i bobl 16-21 oed brynu tocynnau sengl am £1, a theithio dyddiol diderfyn am £3.

# 6. Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr o ymddiriedolaethau, elusennau a sefydliadau yn y DU sy'n darparu cyllid cyrsiau ôl-raddedig i'w chael ar **wefan Prospects**.

Mae **Turn2Us** yn wasanaeth elusennol sy'n helpu pobl i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ariannol addas a gwneud ceisiadau amdanynt, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Gall cronfa ddata Turn2Us helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am fudd-daliadau lles, grantiau, cronfeydd lles a help arall.

Mae'r **Grants Register**, a gyhoeddir yn flynyddol, yn rhoi manylion am filoedd o gyfleoedd cyllido ledled y byd. Mae'r Directory of Grant Making Trusts, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau, hefyd yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau grantiau perthnasol. Mae'r llyfrau hyn ar gael gan wasanaethau gyrfaoedd neu mewn llyfrgelloedd lleol.

# 7. Lincs i ragor o wybodaeth am gymorth ariannol

Gall darllenwyr sy'n edrych ar y fersiwn ar-lein o'r canllaw hwn ddilyn y lincs isod i gael gwybodaeth am gymorth ariannol i fyfyrwyr ôl-raddedig ym mhob un o sefydliadau addysg uwch Cymru.

## Lincs i gymorth ariannol i ôl-raddedigion ym mhrifysgolion Cymru:

**Prifysgol Aberystwyth**

**Prifysgol Bangor**

**Prifysgol Caerdydd**

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Y Brifysgol Agored (Cymru)**

**Prifysgol Abertawe**

**Prifysgol De Cymru**

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Prifysgol Wrecsam**